OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 Rhif 342 (Cy. 62) (C. 29)

DATGELU GWYBODAETH, CYMRU A LLOEGR

Rheoliadau Deddf yr Economi Ddigidol 2017 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru a Lloegr) 2018

Gwnaed - - - - 8 Mawrth 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 118(5) a (7) o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017(**1**).

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf yr Economi Ddigidol 2017 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru a Lloegr) 2018.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2017" yw Deddf yr Economi Ddigidol 2017.

Y darpariaethau sy'n dod i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2017 i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn—

(a) adran 35 (datgelu gwybodaeth i wella cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus), at ddibenion gwneud rheoliadau mewn perthynas â datgelu gwybodaeth i ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth ar gyfer ardal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, neu mewn perthynas â datgelu gwybodaeth gan ymgymerwr o'r fath, yn unig;

(b) adran 38 (datgelu gwybodaeth i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth etc.), at ddibenion gwneud rheoliadau mewn perthynas â datgelu gwybodaeth i ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth ar gyfer ardal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, neu mewn perthynas â datgelu gwybodaeth gan ymgymerwr o'r fath, yn unig; ac

(c) adran 44 (rheoliadau), i'r graddau y mae'n ymwneud â'r dibenion a bennir ym mharagraffau (a) a (b).

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2018

3.—(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2018 i'r graddau y maent yn ymwneud â datgelu gwybodaeth i ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth ar gyfer ardal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, neu'n ymwneud â datgelu gwybodaeth gan ymgymerwr o'r fath—

(**1**) 2017 p. 30.

(a) adran 35 (datgelu gwybodaeth i wella cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus), at bob diben sy'n weddill;

(b) adran 38 (datgelu gwybodaeth i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth etc.), at bob diben sy'n weddill;

(c) adran 39 (datgelu gwybodaeth gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth etc.);

(d) adran 40 (darpariaethau pellach ynghylch datgeliadau o dan unrhyw un neu ragor o adrannau 35 i 39);

(e) adran 41 (cyfrinachedd gwybodaeth bersonol);

(f) adran 42 (gwybodaeth a ddatgelir gan Gyllid a Thollau);

(g) adran 43 (cod ymarfer);

(h) adran 44 (rheoliadau), at yr holl ddibenion sy'n weddill;

(i) adran 45 (dehongli'r bennod hon etc.);

(j) Atodlen 4 (cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus: personau penodedig at ddibenion adran 35);

(k) Atodlen 6 (cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus: personau penodedig at ddibenion adrannau 38 a 39).

(2) Daw Penodau 5 a 6 o Ran 5 o Ddeddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2018, i'r graddau y maent yn ymwneud â datgelu gwybodaeth gan Awdurdod Cyllid Cymru.

Mark Drakeford
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

8 Mawrth 2018

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn cychwyn darpariaethau penodol ym Mhennod 1 o Ran 5 o'r Ddeddf drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn, at ddiben gwneud rheoliadau mewn perthynas â datgelu gwybodaeth i ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth ar gyfer ardal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, neu mewn perthynas â datgelu gwybodaeth gan ymgymerwr o'r fath.

Mae rheoliad 3 yn cychwyn darpariaethau ym Mhennod 1 o Ran 5 o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2018, at yr holl ddibenion sy'n weddill ac i'r graddau y maent yn ymwneud â datgelu gwybodaeth i ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth ar gyfer ardal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, neu'n ymwneud â datgelu gwybodaeth gan ymgymerwr o'r fath.

Mae rheoliad 3 hefyd yn cychwyn Penodau 5 a 6 o Ran 5 o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2018 i'r graddau y maent yn ymwneud â datgelu gwybodaeth gan Awdurdod Cyllid Cymru.

NODYN AM Y RHEOLIADAU CYCHWYN CYNHARACH

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym, neu maent i'w dwyn i rym, drwy reoliadau cychwyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn dyddiad y Rheoliadau hyn:

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 4 (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 4 (dibenion pellach)	22 Tachwedd 2017	2017/1136
Adran 4 (at y dibenion sy'n weddill)	28 Rhagfyr 2017	2017/1286
Adran 5	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 6	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 8	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 14 (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 15 (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 16	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 17	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 21(5) (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 22 (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 25	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 26(2)	31 Gorffennaf 2017	2017/765

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 27	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 30(1) a (2) (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 32	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 33	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 34	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 35 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 36 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 43 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 44 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 46 (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 47 (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 48 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 52 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 54 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 56 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 60 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 62 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 70 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 74	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 76	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 77	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 78	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 79, ac eithrio is-adran (3) (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 80 (yn rhannol)	1 Hydref 2017	2017/765
Adran 81 (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 87	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 92	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 93, ac eithrio is-adran (3)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 95	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 98	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 100	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 101	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 102	1 Hydref 2018	2017/765

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 104	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 106 (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 108	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 109	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Adran 110	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Atodlen 1 (yn rhannol)	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Atodlen 1 (darpariaethau pellach)	22 Tachwedd 2017	2017/1136
Atodlen 1 (at y dibenion sy'n weddill)	28 Rhagfyr 2017	2017/1286
Atodlen 2	28 Rhagfyr 2017	2017/1286
Atodlen 3, paragraff 47	31 Gorffennaf 2017	2017/765
Atodlen 3 (at y dibenion sy'n weddill)	28 Rhagfyr 2017	2017/1286

Gweler hefyd adran 118 o'r Ddeddf ar gyfer darpariaethau a ddaeth i rym ar 27 Ebrill 2017 a 27 Mehefin 2017.